

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 18 Medi 2014

Rhif Union: 01824 712568

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 24 MEDI 2014 am 9.30 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 7 - 8)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 16)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2014 (copi ynghlwm).

#### **5 POLISI A GWEITHDREFN PWYNTIAU COSB DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG** (Tudalennau 17 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig i'w cymeradwyo.

**6 IS-DDEDDFAU CERBYDAU HACNI DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG**  
(Tudalennau 31 - 38)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno Is-ddeddfau diwygiedig sy'n ymwneud â rheoleiddio Cerbydau Hacni i'w cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad.

**7 COD YMDDYGIAD DA ARFAETHEDIG AR GYFER CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 39 - 44)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno Cod Ymddygiad Da arfaethedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cerbydau Hurio Preifat i'w gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad.

**8 COD GWISG DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG AR GYFER CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 45 - 48)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno Cod Gwisg diwygiedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cerbydau Hurio Preifat i'w gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2014/15**  
(Tudalennau 49 - 50)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi ynghlwm) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w gymeradwyo.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem(au) busnes canlynol yn cael eu trafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 14, Rhan 4 Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**10 GOLLYNGIAD O OFYNIAD I ARDDANGOS PLATIAU RHIF CERBYD HURIO PREIFAT** (Tudalennau 51 - 60)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais ar gyfer gollyngiad o'r gofyniad i arddangos platiau rhif ar Gerbyd Hurio Preifat.

**11 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 051260** (Tudalennau 61 - 70)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais am drwydded i yrru cerbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 051260.

**12 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 00327** (Tudalennau 71 - 88)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 00327.

**13 ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 045728** (Tudalennau 89 - 102)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau adolygu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat o ran Gyrrwr Rhif 045728.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Cefyn Williams (Cadeirydd)

Barry Mellor (Is-Gadeirydd)

Joan Butterfield

Pat Jones

William Cowie

Win Mullen-James

Richard Davies

Peter Owen

Stuart Davies

Arwel Roberts

Hugh Irving

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU  
GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM  
DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO  
PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL**

CAM	DISGRIFIAD
1.	Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol.
2.	Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4.
3.	Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad.
4.	Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras
5.	Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos  Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny.
6.	Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion.
7.	Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.)
8.	Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol
9.	Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
10.	Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.  DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion.

11.	Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd.
12.	Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd.
13.	Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd.
14.	Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded.
15.	Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn).
16.	Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:  1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. 2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.  Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded.
17.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl.
18.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gyloch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor.

Cod Ymddygiad Aelodau

**DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU**

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

Llofnod

Dyddiad

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Mercher, 11 Mehefin 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Bill Cowie, Richard Davies, Stuart Davies, Hugh Irving, Pat Jones, Barry Mellor, Win Mullen-James, Peter Owen, Arwel Roberts a Cefyn Williams

**Arsylwyr:** Y Cyng. Meirick Davies

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Gyfreithiwr (AL), Swyddogion Trwyddedu (NJ a JT), Uwch Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol (TWE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

Mynychodd y Rheolwr Polisi Cynllunio (AL) a'r Swyddog Cynllunio (CM) ar gyfer Eitem 7 ar y Rhaglen.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 PENODI CADEIRYDD

Yn unol â'r broses benodi roedd datganiadau ysgrifenedig wedi eu paratoi ar gyfer y pwyllgor gan y Cynghorwyr Barry Mellor a Cefyn Williams ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2014/15. Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield y dylid penodi'r Cynghorydd Barry Mellor yn Gadeirydd, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Pat Jones. Cynigiodd y Cynghorydd Stuart Davies y dylid penodi'r Cynghorydd Cefyn Williams yn Gadeirydd, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Owen. Yn dilyn pleidlais a gynhaliwyd yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 14.4, -

***PENDERFYNWYD - y dylid penodi'r Cynghorydd Cefyn Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn nesaf.***

### 3 PENODI IS-GADEIRYDD

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2014/15. Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield y dylid penodi'r Cynghorydd Barry Mellor yn Is-gadeirydd, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Pat Jones. Felly -

***PENDERFYNWYD - y dylid penodi'r Cynghorydd Barry Mellor fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn nesaf.***

### 4 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams gysylltiad personol yn Eitem 12 ar y Rhaglen - Cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a cherbydau Hurio Preifat gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd o dan sylw.

## **5 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## **6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2014.

***PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2014 fel cofnod cywir.***

## **7 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT – SIOPAU TECAWÊ POETH**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Cynllunio a Swyddog Cynllunio adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddisbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am farn yr aelodau ar y ddogfen drafft Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar siopau tecawê poeth cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ac ymgynghoriad cyhoedd. Roedd Aelodau o'r Grŵp Llywio Aelodau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) wedi gofyn i'r canllawiau gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu o ystyried y cysylltiadau clir â thrwyddedu.

Hysbyswyd yr Aelodau o'r angen i ddiweddarau'r CCA presennol yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ym mis Mehefin 2013. Yn dilyn adolygiad o'r canllawiau penodol hyn mae rhai mân newidiadau wedi eu cynnig ond y prif newid oedd y cynnig i gyflwyno cyfyngiad ar siopau tecawê poeth newydd o fewn 400m i unrhyw ffin ysgol. Ymhelaethodd y swyddogion ar ystyriaethau eraill o fewn y ddogfen a oedd o ddiddordeb arbennig i drwyddedu a phwysleisiwyd y byddai'r canllawiau ond yn berthnasol i geisiadau cynllunio newydd ac ni fyddai'n effeithio ar eiddo tecawê poeth presennol.

Wrth ystyried y canllawiau drafft roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol -

- Roedd y pwyllgor yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno parth gwahardd ger ysgolion ac roedd yn awyddus i'r cyfyngiad hwn gael ei ymestyn i fusnesau bwyd poeth symudol gyda mwy o reolaeth dros fasnachwyr symudol yn gyffredinol a gorfodaeth rhagweithiol. Eglurodd swyddogion y gyfraith ynglŷn â llywodraethu masnachwyr symudol gan gynghori na ellid eu rheoleiddio drwy'r fecanwaith gynllunio ond trwy Caniatâd Masnachu ar y Stryd a Thrwyddedau Pedleriaid. Cytunwyd y dylid cyfeirio at fasnachu ar y stryd o fewn y canllawiau gan egluro'r meysydd hynny o gyfrifoldeb a rheolaeth. Fodd bynnag, roedd pryderon yn parhau na ellid ymarfer rheolaethau digonol dros fasnachwyr penodol a oedd yn syrthio y tu allan i awdurdodaeth ddeddfwriaethol y Cyngor
- adroddodd yr aelodau ar broblemau traffig a pharcio a geir ger siopau tecawê poeth sefydledig a diffyg gorfodaeth a darparodd y swyddogion sicrwydd y

byddai ymgynghori gyda Phrifyrdd yn ffurfio rhan o'r broses gynllunio ar gyfer ceisiadau newydd

- cyfeiriwyd at baragraff 6.7 ynghylch sbwriel a theimlai'r aelodau y dylid cryfhau'r mesurau hynny a'u gwneud yn orfodol os yn bosibl.

Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio y byddai sylwadau'r aelodau yn cael eu rhoi gerbron y Pwyllgor Cynllunio ym mis Gorffennaf wrth ystyried y ddogfen ddrafft. Ychwanegodd y byddai aelodau yn cael cyfle pellach i wneud sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

***PENDERFYNWYD, yn amodol ar y sylwadau uchod, y dylid derbyn a nodi'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar siopau tecawê poeth.***

### **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.***

### **8 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 051261**

[Daethpwyd â'r eitem hon yn ei blaen ar y rhaglen gyda chydsyniad y Cadeirydd.]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar –

- (i) cais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 051261 i ddal trwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
- (ii) Nid oedd y swyddogion mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais yng ngoleuni'r wybodaeth a ddatgelwyd yn dilyn datgeliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynghyd ag euogfarnau moduro a nodwyd ar Drwydded DVLA yr ymgeisydd;
- (iii) Roedd crynodeb o'r euogfarnau a ddatgelwyd wedi eu darparu a oedd yn ymwneud â nifer o droseddau sy'n rhychwantu cyfnod 1988 i 2010 gan gynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â throseddau traffig, meddwdod a throseddau cysylltiedig eraill ac anonestrwydd;
- (iv) polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd colfarnau, a
- (v) gwahoddwyd yr Ymgeisydd i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei gais ac ateb cwestiynau aelodau ar hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod ac yn dilyn cyflwyniadau cadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor. Darparodd y Swyddog Trwyddedu (JT) grynodedd o'r adroddiad ac eglurodd fod y

mater wedi cael ei ddwyn gerbron y pwyllgor i asesu addasrwydd yr Ymgeisydd i ddal trwydded yng ngoleuni'r collfarnau a ddatgelwyd.

Anerchodd yr Ymgeisydd y pwyllgor i gefnogi ei gais gan ymhelaethu ar ei amgylchiadau personol a symud yn ôl i'r ardal yn ddiweddar. Er gwaethaf ei gollfarnau disgrifiodd ei hun fel person da a mynegodd ei awydd i ddychwelyd at ei alwedigaeth fel gyrrwr tacsî. Ymatebodd yr Ymgeisydd i gwestiynau gan aelodau ynghylch yr anghysondeb posibl ar ei ddatgeliad o gofnod troseddol a'i ddatgeliad personol; yr amgylchiadau o gwmpas ei gollfarn mwyaf diweddar, a'i gyfleoedd cyflogaeth posibl. Hefyd gofynnodd yr Aelodau am dystiolaeth o addasrwydd yr Ymgeisydd i yrru cerbydau trwyddedig ac fe'u hysbyswyd am ei hanes cyflogaeth diweddar a rhoddwyd sicrwydd y gellid cael geirada i dystio i'w gymeriad da. Wrth wneud ei ddatganiad terfynol gobeithiodd yr Ymgeisydd ei fod wedi ateb cwestiynau'r aelodau i'w bodlonrwydd ac y byddai'n cael y cyfle i brofi ei hun fel gyrrwr tacsî.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PENDERFYNWYD*** bod y cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan ymgeisydd rhif 051261 yn cael ei roi.

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad a'r ymatebion a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd i gwestiynau. Gwelodd y pwyllgor yr Ymgeisydd i fod yn ddilys yn ei ymatebion a derbyniwyd ei sicrwydd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol ac o ganlyniad ystyriwyd iddo fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Yng ngoleuni ei gollfarnau blaenorol rhoddwyd rhybudd i'r Ymgeisydd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Felly cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

[Roedd y Cynghorydd Stuart Davies am i nodyn gael ei wneud iddo bleidleisio yn erbyn y penderfyniad uchod.]

## **SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau trafod y materion uchod, parhaodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

### **9 POLISI A GWEITHDREFN DDIWYGIEDIG PWYNTIAU COSB ARFAETHEDIG**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Polisi Pwyntiau Cosb diwygiedig a gweithdrefn i'w cymeradwyo. [Nid oedd y cynllun pwyntiau cosb presennol wedi cael ei roi ar waith yn dilyn ei gymeradwyo oherwydd pryderon ar y pryd ynghylch dilysrwydd cynlluniau o'r fath.]

Soniodd swyddogion am faterion cyfreithiol o weithredu system pwyntiau cosb a'r angen i sicrhau nad oedd y cynllun yn cael gwared ar ddisgresiwn yr awdurdod ac yn caniatáu ar gyfer proses apelio briodol. Roedd y polisi yn anelu at wella safonau

yn y sector cerbydau hacni a hurio preifat a gweithio ar y cyd ag opsiynau gorfodaeth eraill i nodi'r unigolion hynny a oedd yn ymddwyn dro ar ôl tro mewn modd, pe cânt eu hystyried yn eu cyfanrwydd, a oedd yn dangos oeddent yn addas a phriodol i ddal trwydded. Cynhaliwyd ymgynghoriad ac roedd barn yr ymatebwyr wedi cael eu crynhoi yn yr adroddiad a'i ystyried wrth lunio'r ddogfen derfynol. Roedd yr ymatebwyr hynny hefyd wedi cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod. Roedd y Cynghorydd Stuart Davies yn credu dylid ymgynghori â'r pwyllgor ar faterion polisi a chynigion cyn y sector trwyddedig a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Croesawodd yr Aelodau gyflwyno'r cynllun pwyntiau cosb fel modd o wella ymddygiad a chodi safonau, ond roeddent yn awyddus i sicrhau bod y cynllun yn deg, yn enwedig o ran dyrannu pwyntiau cosb, a gofynnwyd am sicrwydd yn hynny o beth. Cadarnhaodd y swyddogion fod y cynllun yn debyg i'r rhai a weithredir gan awdurdodau lleol eraill a gofynnwyd am gyngor gan James Button, Cyfreithiwr ar resymoldeb graddfa'r pwyntiau. Byddai pwyntiau yn cael eu dyrannu yn briodol yn dibynnu ar amgylchiadau'r drosedd.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, anerchodd Mr Les Peake, Coastline Taxis y pwyllgor yn mynegi cefnogaeth ar gyfer y cynllun ar yr amod ei fod yn cael ei weithredu a'i blismona'n briodol. Ychwanegodd er mwyn cynnal safonau cerbydau byddai angen gwahardd codi ffi isel iawn am deithiau. Dywedodd Mr Ian Armitage a Mr Gareth Jones eu bod yn cynrychioli barn nifer o yrwyr trwyddedig yn y Rhyl. Tynnwyd sylw at y cynnydd yn y nifer o achosion o dorcyfraith a oedd yn ddarostyngedig i gosb o dan y cynllun newydd (o 28 i 58) ac er bod y rhan fwyaf o'r cynigion yn cael eu cefnogi, roedd nifer fechan yn peri pryder. O bryder arbennig oedd y diffyg darpariaeth ar gyfer egwylliau toiled gyda gyrwyr tacsï yn cael eu cosbi am adael eu cerbyd heb oruchwyliaeth ar ranc tacsï. Eglurodd swyddogion ei fod yn drosedd i adael cerbyd heb oruchwyliaeth ar ranc a bod y cynnig yn ceisio mynd i'r afael â gyrwyr a oedd yn cymryd mantais o ranciau yn y gorffennol ac wedi gadael eu cerbydau i fynd i siopa. Byddai ymagwedd synnwyr cyffredin yn cael ei chymryd i ddyrannu pwyntiau yn yr holl amgylchiadau.

Yn wyneb y pryderon a godwyd gan y sector tacsï a'r ymateb gwael i'r ymgynghoriad, roedd yr aelodau'n teimlo bod y cynigion angen ystyriaeth fwy manwl pellach cyn i'r polisi terfynol gael ei gymeradwyo. O ganlyniad, -

***PENDERFYNWYD*** bod cyfarfod arbennig yn cael ei alw i ystyried Gweithdrefn a Chynllun Pwyntiau Cosb yn fanwl gan gymryd i ystyriaeth y fasnach tacsï a hurio preifat.

Ar yr amser hwn (11.00 a.m.) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## **10 POLISI DEFNYDD BWRIEDIG CERBYDAU HACNI ARFAETHEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Polisi Defnydd Arfaethedig Cerbydau Hacni i'w gymeradwyo i'r Cyngor Llawn ei fabwysiadu.

Tynnwyd sylw at yr anawsterau sy'n gysylltiedig â cherbydau hacni a drwyddeddir gan awdurdod sy'n gwneud gwaith hurio preifat y tu allan i ardal y cyngor hwnnw, yn enwedig ar gyfer swyddogion sy'n cyflawni dyletswyddau cydymffurfio a gorfodaeth. Roedd Panel Technegol Trwyddedu Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru (DPPW) yn cydnabod goblygiadau diogelwch cerbydau sy'n gweithredu yn bennaf yn y modd hwn ac argymell polisi i'w fabwysiadu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau dull cyson a thryloyw ledled Cymru wrth benderfynu ar y defnydd arfaethedig o gerbydau hacni. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r polisi arfaethedig yn dilyn ymgynghori.

Er eu bod yn derbyn y polisi, amlygodd yr aelodau broblemau gyda'i orfodaeth a'i weithrediad, yn enwedig o ran canfod gwir fwriad yr Ymgeiswyr ar gyfer gweithredu o dan delerau'r drwydded a'r ddibyniaeth ar y sicrwydd a ddarperir ganddyn nhw yn y cyswllt hwnnw. Gofynnwyd am i'r pwynt hwn gael ei wneud i'r Panel Technegol Trwyddedu DPPW fel awdur y polisi. Teimlai'r Aelodau hefyd y dylai perchnogion cerbydau hacni sy'n torri'r polisi gael eu trin yn llym.

**PENDERFYNWYD** bod y Polisi Defnydd Arfaethedig o Gerbydau Hacni yn cael ei gefnogi a'i argymell i'r Cyngor Llawn i'w fabwysiadu.

## **11 POLISI PERTHASEDD COLLFARNAU DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG AR GYFER GWEITHREDWYR A GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno Polisi Perthnasedd diwygiedig o Bolisi Collfarnau ar gyfer gyrrwyr a gweithredwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat i'w gymeradwyo.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn adolygu'r canllawiau mewn perthynas â cholffarnau perthnasol ac wedi penderfynu trwy'r Panel Technegol Trwyddedu Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru (DDPW) i argymell canllawiau wedi'u diweddarau yn berthnasol i sefyllfaoedd cyfredol sy'n codi o ran trwyddedu tacsis. Argymhellodd y DPPW i'r polisi gael ei fabwysiadu gan yr holl awdurdodau lleol Cymru i sicrhau dull cyson a thryloyw ledled Cymru wrth benderfynu a yw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded presennol yn berson addas a phriodol i ddal trwydded cerbyd hacni neu drwydded gyrrwr/ gweithredwr hurio preifat. Er y byddai swyddogion ac aelodau yn ystyried y canllawiau byddai pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod unigol a pan fo'r amgylchiadau'n mynnu gallai'r swyddog / pwyllgor wyro oddi wrth y canllawiau. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r polisi arfaethedig yn dilyn ymgynghori.

Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn y polisi diwygiedig a -

**PENDERFYNWYD** bod y Polisi Collfarnau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat diwygiedig fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

## **12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2014/15**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu a nododd yr Aelodau ddau newid bach.

Awgrymodd y Cynghorydd Joan Butterfield fod y Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod y pwyllgor ym mis Medi.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Trwyddedu.

### **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.***

### **13 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 051260**

[Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams gysylltiad personol a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon. Cymerodd y Cynghorydd Barry Mellor (Is-Gadeirydd) y Gadair.]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddsbarthwyd eisoes) ar –

- (i) cais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 051260 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
- (ii) Nid oedd y swyddogion mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais yng ngoleuni'r wybodaeth a ddatgelwyd yn dilyn datgeliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
- (iii) Roedd crynodeb o'r euogfarnau a ddatgelwyd wedi eu darparu a oedd yn ymwneud â nifer o droseddau sy'n rhychwantu cyfnod 1965 i 1995 gan gynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â dwyn, troseddau traffig, meddwdod a throseddau cysylltiedig eraill ac anonestrwydd;
- (iv) polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd colffarnau, a
- (v) gwahoddwyd yr Ymgeisydd i fod yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi ei gais ac ateb cwestiynau aelodau ar hynny.

Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd yr Ymgeisydd yn bresennol ond roedd wedi cyflwyno llythyr (a ddsbarthwyd yn y cyfarfod) i gefnogi ei gais. Nid oedd y llythyr yn egluro absenoldeb yr Ymgeisydd. Yn dilyn ystyried y cais, cytunodd yr aelodau ohirio'r cais tan gyfarfod nesaf y pwyllgor i roi cyfle pellach i'r Ymgeisydd i fod yn bresennol.

**PENDERFYNWYD** bod y cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan ymgeisydd rhif 051260 yn cael ei ohirio tan gyfarfod nesaf y pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 a.m.



<b>ADRODDIAD I'R:</b>	Pwyllgor Trwyddedu
<b>DYDDIAD:</b>	24 Medi 2014
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) <a href="mailto:trwyddedu@sirddinbych.gov.uk">trwyddedu@sirddinbych.gov.uk</a> 01824 706451
<b>TESTUN:</b>	Polisi a Gweithdrefn Diwygiedig Pwyntiau Cosb Arfaethedig

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.2 Cyflwyno Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig i'r Aelodau i'w ystyried.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2.1 I'r Aelodau ystyried cymeradwyo polisi a gweithdrefn pwyntiau cosb diwygiedig i sicrhau gwelliannau pellach mewn safonau ar gyfer Perchnogion Cerbydau Hacni, Gyrwyr a Cherbydau a Gweithwyr, Gyrwyr a Cherbydau Hurio Preifat.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

- 3.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod Swyddogion wedi cyflwyno Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ym mis Mehefin (gellir gweld cofnodion y cyfarfod gyda phapurau'r pwyllgor). Yn wyneb y pryderon a godwyd gan y sector tacsis a'r ymateb gwael i'r ymgynghoriad, roedd yr aelodau'n teimlo bod y cynigion angen ystyriaeth fwy manwl pellach cyn i bolisi terfynol gael ei gymeradwyo.
- 3.2 Felly penderfynodd yr Aelodau i alw cyfarfod arbennig i ystyried y Cynllun a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb yn fanwl gan gymryd i ystyriaeth y fasnach tacsis a hurio preifat. Hefyd, awgrymodd un Aelod y gall y mater hwn gael ei gynnwys yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Medi.
- 3.3 Ers y cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin, mae Swyddogion wedi adolygu'r Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb, ynghyd â rhestr o doriadau/troseddau a gwnaed mân newidiadau e.e. ailgyfrif y nifer o

bwyntiau a gostwng y nifer o doriadau trwy roi rhai toriadau yn yr un grŵp lle bo'n briodol. Cefnogi cynnwys pob toriad o fewn y Polisi, mae Swyddogion hefyd wedi ychwanegu cyfiawnhad i bob toriad.

- 3.4 Ystyriwyd barn deilwyr trwydded hefyd yn dilyn gweithdy diweddar gydag Aelodau a deilwyr trwydded.
- 3.5 Er gwybodaeth i'r Aelodau nid yw'r prif bolisi a gweithdrefn ddiwygiedig wedi newid ers i'r Swyddogion ei gyflwyno ym mis Mehefin. Mae'r unig newidiadau a wnaed yn yr atodiad (rhestr o doriadau)
- 3.6 Efallai y bydd yr Aelodau'n cofio mai un o argymhellion y Swyddog (yn adroddiad Mehefin 2014) oedd diwygio'r cynllun i redeg dros gyfnod o 12 mis yn hytrach na 24 mis. Y rheswm dros yr argymhelliad hwn oedd bod y busnes yn teimlo ei fod yn annheg gan y byddai yna fwy o berygl y byddai deilwyr trwydded yn cael eu cyfeirio at y pwyllgor ac yn wynebu sancsiynau pellach.
- 3.7 Byddai'r Swyddogion nawr yn awgrymu bod yr argymhelliad hwn yn cael ei wrthdynnu oherwydd ar ôl adolygu'r cynllun, ynghyd ag Aelodau a chynrychiolwyr masnach, cydnabuwyd mai'r cylch mwyaf effeithiol fyddai un 24 mis ac mae'r pwyntiau wedi eu gosod yn briodol i'r cynllun fod fwyaf effeithiol.
- 3.8 Gellir gweld y Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig arfaethedig (ynghyd â rhestr o doriadau) yn Atodiad A.
- 3.9 Os byddai'r Aelodau o blaid cymeradwyo'r Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb, gofynnir am gyfnod gras o fis o weithredu'r cynllun i gyflwyno pwyntiau cosb. Yn ystod y cyfnod hwn, byddai Swyddogion yn rhoi tystiolaeth a chanllawiau i ddeilwyr trwydded sy'n torri'r polisi arfaethedig.

#### 4. **YMGYNGHORI**

- 4.1 Mae ymgynghoriad pythefnos pellach ar y Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig wedi'i gynnal gyda'r holl ddeilwyr trwydded. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol eu bod wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwnnw hefyd.
- 4.2 O ganlyniad i'r ymgynghoriad pellach, derbyniodd y Swyddogion un sylw ysgrifenedig, a welir yn Atodiad B (trafodwyd cynnwys sylwadau yn faith yn y gweithdy ac mae diwygiadau wedi eu gwneud yn unol â hynny.
- 4.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad, gwahoddodd y Swyddogion unrhyw ddeilwyr trwydded â diddordeb i weithdy ar 24 Gorffennaf 2014, i drafod y Polisi a

Gweithdrefn Pwyntiau Cosb yn fanwl. Gwahoddwyd yr Aelodau i'r gweithdy hefyd.

- 4.4 Er gwybodaeth i'r Aelodau, roedd tri Gweithredwr wedi mynychu'r gweithdy ynghyd â phedwar Aelod.
- 4.5 Yn ystod y gweithdy trafodwyd pob tor-polisi yn fanwl ynghyd â'r pwyntiau cosb arfaethedig i'w gosod. Lle teimlwyd bod angen diwygio'r pwyntiau cosb arfaethedig, roedd y penderfyniad i ddiwygio, yn y rhan fwyaf o achosion, yn unfrydol.

## 5. **ARGYMHELLION**

- 5.1 Aelodau i ystyried cymeradwyo'r Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig yn Atodiad A, ac wrth wneud hynny cytuno i ddisodli'r Cynllun Pwyntiau Cosb presennol yn y "Llyfr Glas".
- 5.2 Gweithredu'r cynllun o 1 Tachwedd 2014, gyda chyfnod gras o fis cyn i orfodi'r cynllun gael ei gyflwyno.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PENALTY POINT POLICY AND PROCEDURE

## 1 INTRODUCTION

- 1.1 The existing hackney carriage and private hire conditions were approved in March 2011. Officers are reviewing the set of conditions and are making incremental changes to the condition book. The existing conditions makes reference to an existing Penalty Point procedure.
- 1.2 This document details a revised Penalty Point procedure used by the Council to deal with minor breaches or infringements of legislation or unacceptable behaviour committed by those licensed as Drivers and Operators and vehicle proprietors, in much the same way that points can be attached to a DVLA driving licence.

## 2 POLICY STATEMENT

- 2.1 The aim of this policy is to improve the levels of compliance of licensing regulations and requirements and to help raise standards, safety and the protection of members of the public affected by the actions of licensed drivers and operators and vehicle proprietors.
- 2.2 The Council is committed to ensure that only fit and proper persons become, and remain, as hackney carriage and private hire drivers and Operators and vehicle proprietors.
- 2.3 The procedure also seeks to improve the level of transparency and consistency in which the licensing system is administered and enforced.

## 3. PURPOSE OF THE PROCEDURE

- 3.1 The penalty point procedure is designed to work in conjunction with other enforcement options, identifying those drivers, operators or vehicle proprietors who repeatedly behave in a manner which, if taken as a whole, indicates that they are not fit and proper persons to hold a licence.
- 3.2 The Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 and the Town Police Clauses Act 1847 (the relevant legislation covering such licences), only allows for the suspension or revocation of a licence, or the prosecution of a licence holder where they commit an offence under the above legislation. Therefore there is no system in place to deal with minor breached or infringements, which in isolation are not serious enough to warrant the suspension or revocation of a licence.

## 4. WHO IS COVERED BY THE PROCEDURE

- 4.1 Penalty Points may be awarded against anyone holding a hackney carriage and private hire driver licence or a Private Hire Operator Licence

or Vehicle Proprietor.

## **5. ISSUING OF PENALTY POINTS**

- 5.1** Officers will investigate allegations of offences, by licensed operators, drivers or vehicles owners. When considering what action to take the Council officers will take into account all available and appropriate evidence, such as eye witness accounts and their reliability, the views of the licence holder who may be affected by the outcome of the investigation, etc.. The outcome of investigations may result in a wide range of potential actions. This procedure deals with the option of penalty points. For other enforcement action please refer to the relevant procedures.
- 5.2** Once the conclusion to issue penalty points, letters will be sent to all persons/organisations involved in the allegation(s) detailing the findings and decision of the Council officer. A record of the decision will be kept on the relevant licensed driver's, licensed vehicle owner's, or operator's file, including copies of any "Penalty Points Notice(s)" issued, where applicable.
- 5.3** The points will be issued by an Officer or the Committee will be confirmed in writing within 14 days of their issue.
- 5.4** Any points incurred under the Scheme are completely separate from any points which may be attached by the Police, through fixed penalty notices, or the Courts, through convictions to DVLA driving licences.
- 5.5** Confirmed infringements or breaches will act as an ongoing record of a driver's, licensed vehicle owner's or operator's behaviour and conduct, so as to ascertain whether they are a fit and proper person to hold such a licence.
- 5.6** Where a licence holder accumulates 20 or more penalty points in a 24 month rolling period (a period of 24 consecutive months determined on a rolling basis with a new 24 month period beginning each day) the matter will be referred to the Council's Licensing Committee. The Committee will be required to determine whether the driver or operator is a fit and proper person. The following action can be taken by the Committee:
- i. Take no action
  - ii. Issue a warning
  - iii. Issue additional penalty points
  - iv. Suspend a licence as a punitive sanction
  - v. Suspend a licence to correct a fault, defect, or breach
  - vi. Revoke or refuse to renew a licence
- 5.7** Periods of suspension will be determined by the Licensing Committee and will depend on the nature of the offence, breach, or infringement and the individual's compliance history. A determination will also be made as to whether the suspension or revocation is on the grounds of public safety, thereby having immediate effect.

**5.8** Where a driver, proprietor or operator reaches the 20 points and is referred to the Committee it will not preclude all relevant information being disclosed. This will include any other penalty points, complaints, warnings, and suspensions etc. The 20 points will be a referral trigger.

## **6. A BREACH OR INFRINGEMENT IS DISCOVERED**

**6.1** If there is good evidence that there was a breach or inappropriate behaviour and it is considered appropriate to do so, the licence holder will be issued with a penalty point notice.

**6.2** The penalty point notice will describe the infringement or breach, date and time it took place, and how many points have been issued to the licence holder.

**6.3** The Council reserve the right to not impose penalties points under this scheme where in the opinion of the Officers the allegations are either frivolous, vexatious or repetitious, or made, in the Officers opinion, to further personal grievances or which are not made within a reasonable time period, to be determined by the Council depending on the individual circumstances, of the breach having occurred.

## **7. HOW TO REPORT AN INFRINGEMENT**

**7.1** Complaints from members of the public, residents or businesses concerning any breaches of conduct will be subject to investigation by Officers, and only where there is clear, verifiable evidence of an infringement eg a photograph of an illegally parked vehicle, then the Council may issue a penalty point notice based on that evidence. These investigations may be dealt with by way of issuing penalty points under this scheme or in serious cases automatic referral to the Licensing Committee.

**7.2** A form that guides how to report an infringement is available on the Council's website at [www.denbighshire.gov.uk/licensing/taxis](http://www.denbighshire.gov.uk/licensing/taxis)

## **8. INFRINGEMENTS/BREACHES COVERED BY THE SCHEME**

**8.1** A full list of infringements and breaches covered by this Scheme can be found at Appendix 1.

## **9. APPEALS**

**9.1** If no appeal is lodged within 10 days of receiving the Notice, then the Council will take the view that the licence holder has accepted the penalty points.

**9.2** If a licensee wishes to appeal against the issue of a "penalty points notice" he/she must do so in writing, stating the reasons of the appeal, within 10 working days from the date of issue of such a notice, to the

Council's Head of Planning and Public Protection or in his/her absence the Public Protection Manager, who, in consultation with the Chairman of the Licensing Committee, will have the discretion to:-

- i. uphold the Council Officer's decision – retain the number points on the "penalty points notice"; or
- ii. cancel the issue of the "penalty points notice" to the licensee.

**9.3** There is no appeal beyond the decision made by the Head of Public Protection. However, should a licensee be subsequently reported to the Licensing Committee for accumulating 20 penalty points, he/she has the opportunity to raise the validity of the points issued.

## **10. RE-APPLYING FOR A LICENCE**

**10.1** If a licence holder has had their licence revoked, they may apply for a new licence, but its Council Policy that such an application under the Penalty Point Scheme will not be entertained until a suitable period from the date of revocation has elapsed, as detailed below:

- i. where the penalty points which resulted in the revocation included any infringements that attracted 10 or more points, then this period will be 24 months
- ii. where none of the infringements individually attracted more than 10 points, then this period is reduced to twelve months

**10.2** It should not be assumed that an application for a new licence, following revocation under this Scheme, will automatically be granted. Any application will be subject to the Council's normal application process and consideration of whether the applicant is a fit and proper person to hold a licence.

## **11. DELEGATION OF FUNCTIONS**

**11.1** The Head of Planning and Public Protection Public Protection can delegate authority to the Public Protection Manager to issue penalty points in accordance with this policy. The Public Protection Manager can also delegate this function to an authorised Officer of the Council.

## **12. REVIEW OF THE SCHEME**

**12.1** This Policy will be reviewed every three years. Notwithstanding this, the policy will continue to be evaluated and may be updated at any time, subject to the appropriate consultation.



**APPENDIX 1 – PENALTY POINT SCHEME**

**FOR BREACHES OR INFRINGEMENTS BY HACKNEY CARRIAGE AND PRIVATE HIRE OPERATORS, DRIVERS AND VEHICLE PROPRIETORS**

**SCALE OF PENALTY POINTS**

<b>REF No</b>	<b>BREACH/OFFENCE OR INFRINGEMENT</b>	<b>PENALTY POINTS</b>	<b>DRIVER</b>	<b>PROPRIETOR OR OPERATOR</b>
